

RYDYM YN **recriwtio**

UCHAFBWYNTIAU Y SWYDD





Peintiwr ac Addurnwr

Gwybodaeth Hanfodol

Cyflog: £28,770 i £31,364 y flwyddyn (yn ddibynnol ar brofiad)

Oriau: Llawn amser, 37 awr yr wythnos

Contract: Parhaol

Am y Swydd

Yn y rôl hon, byddwch yn rhan o dîm Asedau a Chydymffurfiaeth y Cwmni gan ddarparu lefel uchel o grefftwaith o ansawdd, cynnal y lefelau uchel o ansawdd a safonau a osodir ar hyn o bryd gan Hamdden Sir Ddinbych Cyf, a darparu arweiniad arbenigol ar waith atgyweirio a chynnal a chadw yn y dyfodol.

Byddwch yn gyfrifol am addurno prosiectau a gweithiau ledled ein holl leoliadau godidog. Byddwch yn gweithio ar brosiectau o fanylebau a lluniadau ac yn ei cyflawni isafon arbennig, gan sicrhau cyfrifiadau cywir o'r arwynebedd a'r deunyddiau sydd eu hangen, a sicrhau bod y safle'n cael ei adael yn berffaith ar ôl ei gwblhau.

O bryd i'w gilydd efallai y byddwch yn gwneud rhywfaint o waith cynnal a chadw arall, a bydd angen i chi weithio'n agos gyda gweithwyr adeiladu proffesiynol eraill fel trydanwyr a phlymwyr ar gyfer rhai prosiectau.

Yn Hamdden Sir Ddinbych Cyf rydym yn ymfalchïo mewn cefnogi a gwobrwyo ein gweithwyr caled. Byddwch yn cael cyfleoedd i ddatblygu ac ehangu ar eich gwybodaeth, sgiliau a hyfforddiant.

This document is also available in English/Mae'r dogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg



Peintiwr ac Addurnwr

Amdanoch Chi

Rydym yn chwilio am arbenigwr yn eu maes, rhywun sydd â phrofiad sylweddol mewn ystod eang o brosiectau a gweithiau paentio ac addurno, ac sy'n ymfalchïo mewn cwblhau prosiect i safon rhagorol. Mae llawer o'n safleoedd yn gweithredu o oriau cynnar y bore tan oriau hwyr y nos, 7 diwrnod yr wythnos, felly bydd angen i chi allu rheoli a chydlynu gwaith mewn safle gweithredol prysur, gan fod yn barod i weithio o amgylch gweithrediadau'r cyfleusterau.

Bydd gennych gymhwyster Lefel 2 o leiaf mewn Peintio ac Addurno. Byddai rhywfaint o brofiad a gwybodaeth am ystod o faterion adeiladu a rheoliadau adeiladu yn ddefnyddiol, ond peidiwch â phoeni os nad yw hyn gennych, gallwn ddarparu hyfforddiant.

Bydd ein person delfrydol yn gyfarwydd â darllen a dehongli dyluniadau a lluniadau, a bydd yn gallu eu defnyddio i weithio allan y ffordd fwyaf cost effeithiol o gyflawni prosiect heb aberthu ansawdd neu safonau, gan gynnig arweiniad a chynghor arbenigol ar hyd y ffordd.

Bydd angen i chi feddu ar brofiad ym mhob dull addurno o gymysgu paent i osod papur wal, paratoi ardaloedd ar gyfer addurno, a gwneud gwaith adeiladu sylfaenol sy'n gysylltiedig ag addurno.

Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith tîm, felly bydd angen i chi fod yn rhywun sy'n barod i fynd yn sownd i gyflawni'r swydd, ac sy'n gallu meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol ag eraill.



Peintiwr ac Addurnwr

Amdanom ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae HSDdCyf wedi datblygu portffolio o gyfleusterau sy'n arwain y sector, gan gynnwys 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm, 7 darpariaeth bwyd a diod unigryw, 2 atyniad anhygoel a theatr syfrdanol â 1,000 o seddi.

Mae tîm HSDd yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydyn ni'n gweithio i athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydyn ni i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle rydych chi wedi'ch lleoli. Gyda'n gilydd rydyn ni i gyd yn cyfrannu at wneud HSDdCyf yn llwyddiannus

Ein Gwerthoedd



Uchelgais a Thwf



Ymddiriedolaeth ac Uniondeb



Rhagoriaeth a Gwydnwch



Balchder ac Angerdd



Peintiwr ac Addurnwr

Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyf hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blynyddol yn dechrau ar 25 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i ennill mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisiau teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch Graham Evans, Rheolwr Rhaglen Datblygu Cyfleusterau, ar 07900 729786 neu evans.graham@denbighshireleisure.co.uk

Dyddiad Cau: Dydd Gwener 5ed Ionawr, 2024

Lleoliad: Trem y Dyffryn, Dinbych, ond yn trafaelio i safleoedd HSDDCyf i gyd

Gwnewch gais drwy: ebostio eich CV i Pobl@hamddensirddinbych.co.uk